ADRODDIAD EFFAITH

# Lwc | Luck: profiadau pobl ifanc sydd â phrofiad gofal – y stori hyd yma.



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Lwc | Luck: profiadau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal – y stori hyd yma.



Ar 12 Tachwedd 2024, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru arddangosfa ymdrwytho ryngweithiol yn y Senedd. Gwahoddwyd dros 100 o bobl oedd yn bresennol i fynd i mewn i ‘gartref’ gofalwr maeth, yng nghwmni lleisiau pobl ifanc oedd â phrofiad o ofal y buon ni’n gweithio gyda nhw, yn disgrifio’u profiadau o newid lleoliad ac amgylchiadau anghyfarwydd.




Ar hyd gweddill y cartref dros dro, wynebwyd y rhai oedd yn bresennol gan eiddo wedi’i bentyrru mewn bagiau du, droriau yn llawn eiddo personol dros ben, cyfres o eitemau eiddo coll ac emosiynau a theimladau plant ifancach oedd â phrofiad o ofal, a fynegwyd yn rymus trwy gelf, barddoniaeth a dyfyniadau. Ond roedd yna hefyd bethau cadarnhaol pwysig i’w nodi, fel y ‘rysait’ yn y gegin ar gyfer gofalwr maeth da neu oedolyn gallech chi drystio, y teitlau llyfrau oedd yn cynnwys syniadau hyfforddi ynghylch llythrennedd emosiynol, a’r hanesion am funudau meddylgar a gofalgar, pa mor fychan bynnag oedden nhw, mewn lleoliad newydd, pethau oedd yn gwneud byd o wahaniaeth.



# Cefndir y gwaith – prosiect ENYA

Daeth yr arddangosfa o waith roedden ni wedi'i wneud gyda grŵp hawliau merched Hope yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ymrwymodd tîm y Comisiynydd Plant i ddarn o waith oedd yn cwmpasu Ewrop gyfan, gyda Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyn Plant (ENOC), yn canolbwyntio ar Ofal Amgen. Buon ni'n gweithio gyda Hope i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Ewropeaidd o Ymgynghorwyr Ifanc (ENYA) sy'n dod â lleisiau pobl ifanc o bob rhan o Ewrop i waith ENOC.

Ar sail hynny, mae ENOC wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ar anghenion gofal a chymorth plant mewn gofal amgen. Ond roedd y gwaith wnaethon ni gyda'r merched wedi arwain at gymaint o feddwl, trafod, a chynnwys atgofus, fel bod rhaid i ni gael hyd i ffordd i ddod â'r negeseuon hyn adre i Gymru.

Felly aethon ni ati i ddod â'u geiriau a'u profiadau'n fyw trwy'r arddangosfa hon, ac allai neb oedd yn bresennol beidio â chael eu cyffwrdd gan beth glywson nhw.

Cafodd y digwyddiad ei noddi a'i gyflwyno gan yr AS Sioned Williams, a siaradodd yn angerddol am ei hymrywmiad i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Dilynwyd hynny gan y Comisiynydd, a soniodd am ei haddewid hithau i blant a phobl ifanc, a bod y digwyddiad hwn yn rhan o'r addewid i'w helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan y rhai oedd mewn sefyllfa i newid eu bywydau er gwell.



Roedden ni wrth ein bodd bod 19 o bobl ifanc â phrofiad o ofal gyda ni hefyd, gan gynnwys dau siaradwr rhyfeddol o grŵp Hope.

Yn eu hanerchiad fe ddwedon nhw:

"Roedd yn anhygoel. Roedd Bratislava yn hardd, roedd y bwyd yn wych ac roedd ganddyn nhw'r hufen iâ gorau erioed. Ond y peth gwirioneddol ddiddorol oedd cwrdd â phobl ifanc o bob rhan o Ewrop oedd â phrofiad o ofal a rhannu ein profiadau a gweithio gyda'n gilydd i greu newid. Rydw i'n dal mewn cysylltiad â ffrindiau ar draws Ewrop. Er mai argymhellion ein grŵp ni, Hope, o Gastell-nedd Port Talbot, byddwch chi'n eu gweld heddiw, mae'r hanesion y byddwch chi'n eu clywed yn dod oddi wrth ein cyfoedion ar draws Cymru, ac mae plant a phobl ifanc o 4 i 21 oed wedi cymryd amser i rannu eu stori gyda chi.

Rydyn ni'n gobeithio byddwch chi'n gwrando, yn dysgu, ac yn fwy na dim rydyn ni'n gobeithio byddwch chi'n newid pethau."

**"Rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn gwrando, yn dysgu, ond yn fwy na dim, rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn newid pethau."**



# Deunydd yr arddangosfa


Isod mae rhai dyfyniadau allweddol y buon ni'n eu casglu wrth ymgysylltu â phobl ifanc, ac fe gawson nhw eu mynegi'n greadigol trwy ddeunyddiau'r arddangosfa:

## Am fod mewn gofal:

*"Mae'n gwneud iddo edrych fel mai ni yw'r rhai sydd wedi gwneud rhywbeth yn anghywir, Er enghraifft, bob tro mae pobl yn deall mod i mewn Gofal Maeth maen nhw'n dweud pethau fel 'O, beth ddigwyddodd? Pam est ti fanna? Beth wnest ti? ' Ac rydw i'n dweud 'Wnes i ddim byd'."*

*"Fe es i o fod yn un o naw i fod yn unig un. Roedd hynny'n galed."*

**"Beth alla i sgrifennu hyd yn oed? Ble mae dechrau? Mae gen i gymaint i'w ddweud am pa mor ofnadwy mae bywyd wedi bod, ond dydw i ddim yn gwybod ble mae dechrau."**




# Am symud lleoliad:

*"Fe wnaeth symud dorri fi, roedd yn un o'r adegau tywyllaf i fi mewn Gofal Maeth."*

*"Rydw i wedi symud 5 gwaith, ac mae bob amser wedi digwydd mewn bagiau du" – person ifanc yn sôn am 5 symudiad brys mewn 12 wythnos*

*"Cynllunio symud yn fwy fel bod modd gwneud pethau'n arafach a chael mwy o wybodaeth."*

*"Mae fy Ngofalwr Maeth yn treio gwneud i fi dalu am y bocsys a'r bagiau i symud."*

**"O, mae'n gas gen i weld fy magiau wedi pacio." – person ifanc yn sôn am gyrraedd adre ar ôl ysgol i weld bagiau wedi'u pacio**




# Am Deimladau:

*"Mae rhaid i fi ddefnyddio gweithgareddau plant o hyd, pethau fel llosgfynydd emosiynau, i esbonio sut rydw i'n teimlo. Mae'n teimlo'n bathetig."*

*"Rydw i wedi bod yn aros 2 flynedd am gwnsela. Does dim byd yn cael ei gynnig wrth i chi aros"*

*"Gadawodd yr athro roeddwn i'n trystio, ac fe roddodd hynny gnoc enfawr i'm hyder i"*

**"Beth yw pwynt aros am argyfwng cyn dysgu pobl am deimladau a chadw emosiynau dan reolaeth. Tase pawb yn cael hynny o'r cychwyn byddai'n haws rheoli'r pethau mawr."**




# Am bacio eitemau personol:

*“Mae fy ngweithiwr cymdeithasol wedi gweld pob bra sydd gen i! Wnaeth hynny jyst taro fi pryd ny, mae fy ngweithiwr cymdeithasol wedi gweld pob bra sydd gen i!” – siarad am Weithwyr Cymdeithasol yn pacio eich eiddo*


*“Dylen nhw ofyn i chi cyn pacio eich stwff”*

*“Mae methu pacio eich bagiau eich hun yn gwneud i chi bryderu”*

**“Falle bydd gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth ddim yn gweld pwysigrwydd eich stwff” – person ifanc yn sôn am y ffaith bod eraill ddim yn deall pa werth sentimental sy’n gallu bod gan eitemau.**

# Ymatebion myfyrgar y rhai oedd yn bresennol:

Daeth dros 100 o bobl i'n digwyddiad, ac roedd hynny'n cynnwys gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, aelodau o'r Senedd o bob plaid wleidyddol, a chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau plant a chyrff trydydd sector. Fe ddaeth ysgol gynradd hefyd, ac roedd disgyblion ifanc â phrofiad o ofal gyda nhw.




Dyma rai o'r negeseuon adawyd gan y rhai oedd yn bresennol:

- Roedd yn bwerus gwrando ar brofiadau'r plant yn eu geiriau eu hunain – mae'n hawdd cyflawni rhai pethau
- Mae hawliau gan bob plentyn, beth bynnag yw'r sefyllfa!
- Grymus a phwysig clywed profiadau plant a deall y newidiadau bach a mwy o faint sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol
- Mae lleisiau plant a phobl ifanc mor bwysig
- Daliwch ati i wrando ar bobl ifanc
- Pwysigrwydd llais y plentyn, yn arbennig newid lleoliadau a phrofiadau newydd plant mewn gofal
- Newidiadau bach pwerus = gwahaniaeth mawr
- Clywed am ddigartrefedd wrth droi'n 18 oed!




Dyma rai negeseuon gawson ni ers y digwyddiad gan bobl oedd yn bresennol:

- Fe greodd y cynnwys a'r dulliau gweithredu argraff fawr ar bawb
- Sut galla i gael gafael ar y deunydd sain i'w ddefnyddio i hyfforddi fy staff fy hun
- Mae'r 5 argymhelliad mor sylfaenol ac yn ymddangos yn amlwg, dyna pam cafodd e gymaint o effaith, oherwydd mae llawer o bobl yn cymryd yn ganiataol eu bod nhw eisoes yn digwydd...
- I ba raddau mae profiad o ofal yn effeithio ar blant a phobl ifanc
- Yr heriau mae plant mewn gofal yn eu hwynebu bob dydd, cynifer ohonyn nhw sydd, a bydden i byth hyd yn oed wedi meddwl am rai ohonyn nhw
- Diolch am rannu eich profiadau gyda ni â'r fath haelioni, hyder, brwdfrydedd ac ymroddiad. Fe greodd eich gwaith yn cefnogi ac yn gofalu am eich gilydd yn y digwyddiad argraff fawr arna i hefyd. Fe ddysgais i gymaint o fynd drwy'r tŷ a chlywed chi'n siarad o'r llwyfan ac yn y negeseuon oedd wedi'u recordio. Trwy rannu eich barn mor agored ac mor glir fe wnaethoch chi fy helpu i ddeall profiadau pobl ifanc â phrofiad o ofal yn well, a beth allai fod angen newid i roi cefnogaeth a chyfleoedd gwell iddyn nhw.





# Pum argymhelliad grŵp hawliau merched Hope:

Mae'r rhain i gyd yn argymhellion digon syml neu ymarferol, ond bydden nhw'n gwneud gwahaniaeth anfesuradwy i fywydau plant mewn gofal. Roedd rhai o'r bobl ddaeth i'n digwyddiad yn meddwl y dylai'r pethau yma fod yn digwydd eisoes, ond mae'n amlwg o'r pethau mae'r bobl ifanc wedi rhannu gyda ni bod eu profiadau, gwaetha'r modd, yn sicr wedi adlewyrchu'r pryderon hyn.

- **Hyfforddiant i Ofalwyr Maeth.** Bydden ni'n hoffi i'r hyfforddiant gynnwys technegau therapiwtig a hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, fel bod Gofalwyr Maeth mewn sefyllfa well i ddelio â'r emosiynau sy'n aml yn gymhleth a sut mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain.

- **Gallu bod yn rhan o bacio ein heiddo ein hunain.** Bydden ni'n hoffi gweld systemau fyddai'n golygu ein bod ni'n gallu pacio ein heiddo ein hunain. P'un a fyddai hynny'n golygu helpu gweithiwr cymdeithasol/gofalwr maeth neu baratoi rhestr o'r eiddo rydyn ni'n disgwyl eu gweld yn ein cartre newydd.

- **Dylai eiddo gael ei bacio mewn bagiau a chesys, nid bagiau du.** Bydden ni'n hoffi i'r llywodraeth ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal fagiau a chesys addas i symud eu heiddo.

- **Cyfranogi yn ein gofal.** Bydden ni'n hoffi cael ein cynnwys yn ein cyfarfodydd gofal ein hunain. Bydden ni'n hoffi gweld canllawiau cryfach ar beth ddylai ddigwydd i'n cynnwys ni yn ein gofal ein hunain. Mae'r canllawiau'n wan, mae angen mwy.

- **Llythrennedd Emosiynol a chefnogaeth therapiwtig.** Bydden ni'n hoffi gweld mwy o waith grŵp therapiwtig yn digwydd yn yr ysgol a gwell sesiynau llythrennedd emosiynol i bob plentyn a pherson ifanc. Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae gan bob plentyn eiriau i ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo a mynegi ei hunain cyn i unrhyw beth trawmatig ddigwydd iddyn nhw.




## Camau Nesaf o ran polisi ac ymarfer:

Dylai lleisiau a phrofiadau'r bobl ifanc hyn sbarduno pawb ohonon ni i gyflymu ein hymdrechion i greu newid ystyrlon ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Mae Rhaglen gyfredol y Llywodraeth yn cynnwys 8 ymrwymiad i drawsnewid gofal cymdeithasol plant –

- archwilio diwygiadau radical yn y gwasanaethau cyfredol i blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal
- dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd
- ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartref â phosib, ac yng Nghymru, lle bynnag mae hynny'n ymarferol bosib
- cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'
- atal teuluoedd rhag chwalu trwy ariannu gwasanaethau eiriolaeth i rieni y mae eu plant mewn perygl o fynd i ofal
- darparu cefnogaeth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion gofal
- parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain
- cefnogi cynllun cenedlaethol Maethu Cymru



Bydden ni'n hoffi gweld gwaith sy'n ymwneud â diwygio gwasanaethau plant yn radical a chryfhau cyrff cyhoeddus yn ein rolau rhianta corfforaethol yn ymgorffori ymateb i'n pum argymhelliad, er mwyn sicrhau bod y materion sy'n bwysig i blant sydd â phrofiad o ofal yn derbyn sylw.

Mae rôl cynllun cenedlaethol Maethu Cymru hefyd yn allweddol i symud yr argymhellion ymlaen, gan fod angen i'r hyfforddiant a'r cyngor mae gofalwyr maeth yn ei dderbyn adlewyrchu ac ymateb i'r profiadau a rannwyd ac a esboniwyd mor huawdl gan y bobl ifanc hyn.



Bydden ni'n fodlon gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol ar ddeunyddiau hyfforddi neu ganllawiau i'w cyflwyno i bob gofalwr maeth, p'un a ydyn nhw'n newydd neu'n fwy profiadol, er mwyn iddyn nhw fyfyrio ar eu harferion eu hunain ac ymateb i anghenion y plant sy'n byw gyda nhw nawr neu wrth gychwyn lleoliad newydd.



Rydyn ni'n gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adnewyddu Côd Ymarfer Rhan 6 ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2024, i adlewyrchu Siarter Rhianta Corfforaethol 2023. Mae hwn yn gam i'w groesawu, ond dylai fynd ymhellach na diweddariad bychan sy'n cynnwys nodi ambell frawddeg i atgoffa pobl am fodolaeth y Siarter. **Er mwyn troi uchelgais Rhianta Corfforaethol da yn weithredu gwirioneddol rhaid i Lywodraeth Cymru fyfyrio'n briodol ac ymateb yn uniongyrchol i'r mewnwelediad pwysig a gafwyd yn yr arddangosfa hon, a ddylai ein sobri.**

Mae Côd Ymarfer Rhan 6, yn y drafft presennol, yn ddiffygiol o ran cynnwys pobl ifanc yn eu cyfarfodydd a'u penderfyniadau gofal eu hunain. Mae llawer o gyfeiriadau at gynnwys eu rhieni, ond er syndod, ni cheir fawr ddim sôn am y plentyn neu'r person ifanc eu hunain. Gan fod hon yn Ddeddf a seiliwyd ar hawliau plant yn CCUHP, ac egwyddorion 'llais, dewis a rheolaeth', mae hynny'n teimlo fel diffyg pwysig.

Mae'n eglur o brofiadau'r bobl ifanc hyn fod rhaid gwneud mwy i newid arferion, ac felly mae'n ymddangos mai sicrhau gofynion a rhwymedigaethau cliriach yn y Côd Ymarfer statudol yw'r lle priodol ac amlwg i adlewyrchu'r camau pwysig hyn. Mae ymrwymiad pellach gan gyrff cyhoeddus a gweithredu'r Siarter Rhianta Corfforaethol hefyd yn allweddol, ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n effeithiol a yw'r dull hwn yn gweithio neu beidio, er mwyn cyflawni ei dyheadau hithau o ran trawsffurfio radical.

Yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol yn Lloegr, mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi papur polisi cyn y ddeddfwriaeth sydd i ddod ar ffurf y Bil Plant a Llesiant. Mae llawer o uchelgais yn y papur hwnnw ynghylch cryfhau'r ddeddfwriaeth ynghylch rhianta corfforaethol a sicrhau mwy o gefnogaeth i bob plentyn sydd â phrofiad o ofal. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal eu hadolygiad eu hunain, ond mae angen i ninnau fod yn uchelgeisiol o ran ein plant sydd â phrofiad o ofal. Mae angen ymateb uniongyrchol, a chynnwys plant a phobl ifanc i gydgynhyrchu canllawiau diwygiedig sy'n delio â'r materion pwysicaf fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn eu bywydau o ddydd i ddydd.




Bydd y swyddfa hon yn parhau i hyrwyddo anghenion a hawliau pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Rydyn ni wedi gwneud ein haddewid ein hunain i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a byddwn ni'n cadw'r addewid honno.



**Dyw e ddim yn ddigon dweud y dylai'r profiadau yma berthyn i'r gorffennol; mae rhaid i ni sicrhau bod hynny'n wir i bob plentyn yng Nghymru, ac nid i'r ychydig 'lwcus' yn unig.**


# Diolchiadau




Hoffen ni ddiolch i Sioned Williams AS am noddi'r digwyddiad mor angerddol a siarad i agor yr arddangosfa.

Rydyn ni am ddiolch yn arbennig i bawb gyfrannodd at y deunyddiau a wnaeth yr arddangosfa hon mor gofiadwy. Mae gormod ohonyn nhw i enwi pawb, ond diolch yn arbennig i'r canlynol:

- Darren, Janine a'r holl ferched o grŵp hawliau merched HOPE
- Plant a phobl ifanc o Awdurdod Lleol Pen-y-bont sydd â phrofiad o ofal
- Plant a phobl ifanc o Awdurdod Lleol Abertawe sydd â phrofiad o ofal
- Plant a staff o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Cwm Bach
- Menywod ifanc o Brosiect Unity NYAS yng Ngwynedd, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Caerdydd, Blaenau Gwent, Abertawe, Caerffili, Merthyr, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen.







# CYSYLLTWCH Â NI




**Comisiynydd Plant Cymru**

01792 765600

**E-bost**
post@complantcymru.org.uk

**Gwefan**
www.complantcymru.org.uk